Cymru Ifanc
Young Wales

Ebrill 2018

This briefing is bilingual, click here for the English version.

Croeso i gylchlythyr Cymru Ifanc

Gwaith cyfranogi yw Cymru Ifanc wedi'i gynnal gan Blant yng Nghymru a'n sefydliadau partner, a chaiff ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Bydd Cymru Ifanc yn sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed am faterion sy'n bwysig iddynt hwy, a bod y materion hyn yn cael eu clywed gan Lywodraeth Cymru'n arbennig.

Fesul mis byddwn yn dod â'r newyddion diweddaraf i chi, yn cynnwys diweddariadau am y gwaith sy'n cael ei wneud gan fforymau a grwpiau eraill ledled Cymru.

Os hoffech gyfrannu unrhyw beth, e-bostiwch info@childreninwales.org.uk.

Contents

1. Digwyddiad Dathlu Cymru Ifanc
2. Llywodraeth Cymru yn cefnogi prosiect i glywed barn plant a phobl ifanc am Brexit
3. Mesur y Mynydd - Deall Profiadau Gofal Cymdeithasol yng Nghymru
4. Comisiynydd Plant Cymru yn Cyflwyno Papur Safbwynt ar Addysg Hawliau Dynol
5. Diwrnod Cenedlaethol Plant yn y Deyrnas Unedig: 13 Mai 2018

Digwyddiad Dathlu Cymru Ifanc

Ar 23 Mawrth, daeth pobl ifanc o bob rhan o Gymru at ei gilydd yn Amgueddfa Cymru i ddathlu gwaith Cymru Ifanc yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Roedd y digwyddiad yn dathlu diwedd trydedd flwyddyn menter cyfranogiad Cymru Ifanc, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru trwy'r Grant Cyflawni i Blant a Theuluoedd. Nod Cymru Ifanc yw rhoi llais i blant a phobl ifanc a sicrhau bod llunwyr penderfyniadau yn eu clywed.

Cafodd y rhai ddaeth i'r digwyddiad gyfle i ymweld â Pharth Cymru Ifanc lle roedd manylion am amserlen ein holl waith a'n digwyddiadau o'r cychwyn.

Darllenodd Bethany Roberts, Aelod o'r Senedd Ieuenctid sy'n rhan o Fwrdd Prosiect Cymru Ifanc, neges gan y Gweinidog dros Blant a Gwasanaethau Cymdeithasol, Huw Irranca-Davies AC, yn y digwyddiad, a buon ni hefyd yn croesawu Comisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Cynhaliodd y ddau Gomisiynydd sesiynau gweithdy i drafod eu gwaith a'u blaenoriaethau.

Bu Comisiynydd Plant Cymru hefyd yn sôn am ei chynllun ar gyfer y tair blynedd nesaf, yn dilyn yr ymgynghoriad eang a gynhaliwyd yn ei blwyddyn gyntaf yn y swydd, sef Beth Nesa/What Next?

Roedd y digwyddiad yn llawer mwy na chynhadledd flynyddol, gan fod gweithdai a gweithgareddau i bawb eu mwynhau gyda'r hwyr. Ymhlith y gweithgareddau difyr roedd rapio, ysgrifennu geiriau i ganeuon, sesiwn 'hoola hoop' a bwth ffotograffau.

Gyda'r hwyr roedd gweithdai gydag Amser i Newid Cymru yn edrych ar faterion iechyd meddwl, MEIC Cymru, Youth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyngor Ieuenctid Sir Gâr, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Grwp Gofalwyr Ifanc Caerdydd, Cyngor Ieuenctid Caerdydd, a phrosiect Newid Meddyliau (Changing Minds).

Diolch i bawb a ddaeth i'r diwrnod - roedd yn wych edrych yn ôl ar holl lwyddiannau'r blynyddoedd diwethaf. Rydyn ni'n edrych ymlaen at gyfnod nesa gwaith Cymru Ifanc.

Llywodraeth Cymru yn cefnogi prosiect i glywed barn plant a phobl ifanc am Brexit

Mae plant (0-19 oed) yn cynrychioli chwarter o boblogaeth Cymru. Bydd goblygiadau Brexit yn effeithio arnynt hwy am lawer hwy na'r oedolion a gymerodd y penderfyniad i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae ond yn briodol bod barn plant a phobl ifanc yn cael ei hystyried gan y llywodraeth yn ystod y cyd-drafodaethau pwysig hyn. Rydym ni felly wrth ein bodd bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhai adnoddau i blant a phobl ifanc gael lleisio

eu barn a chael eu clywed ar y mater hwn.

Dywedodd Catriona Williams OBE, Prif Weithredydd Plant yng Nghymru:

"Nod ein rhaglen 'Cymru Ifanc' yw cynyddu cyfranogiad plant a phobl ifanc wrth ddylanwadu ar ddatblygiad polisïau Llywodraeth Cymru. Gwyddom oddi wrthynt yn barod eu bod yn awyddus iawn i'w safbwyntiau gael eu clywed ar yr adeg holl-bwysig hon mewn perthynas â'r cyd-drafodaethau am Brexit, gan mai ar eu dyfodol nhw y byddant yn effeithio'n arbennig.

"Rydym ni, yn Plant yng Nghymru, felly wrth ein bodd bod Llywodraeth Cymru wedi gwrando ar y bobl ifanc ac wedi rhoi cyllid ar gyfer y dasg bwysig hon sy'n cydnabod pwysigrwydd gweithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yma yng Nghymru."

Mae plant wedi elwa o ddeddfiadau'r Undeb Ewropeaidd gan gynnwys mudo, amddiffyn plant, iechyd a diogelwch a mynediad i hawliau cymdeithasol ac economaidd. Mae arian o'r Undeb hefyd yn helpu cymunedau anfanteisiol yng Nghymru. Ond hyd yn hyn, ychydig iawn o drafodaeth a fu am sut y bydd Brexit yn effeithio ar blant a phobl ifanc, er mai hwy fydd y rhai sy'n gorfod byw gyda'r canlyniadau.

Ymhlith y materion sydd o bryder mae erydu Hawliau Sylfaenol, tanseilio cydlyniant cymdeithasol a cholli'r arian sy'n dod i ranbarthau o amddifadedd ac i raglenni a, gyfnewidfeydd addysgol.

Mesur y Mynydd - Deall Profiadau Gofal Cymdeithasol yng Nghymru

Mae Mesur y Mynydd yn brosiect Cymru gyfan i werthuso effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n gydweithrediad rhwng y sector gyhoeddus, y drydedd sector ac, yn fwyaf pwysig, y bobl sy'n byw yma.

Bydd y prosiect, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn casglu straeon oddi wrth bobl â phrofiad diweddar o ofal cymdeithasol er mwyn creu darlun o sut mae gofal cymdeithasol yn teimlo ar gyfer yr unigolion sy'n rhan ohono.

Mae tîm Mesur y Mynydd yn gobeithio gweithio gyda sefydliadau ledled Cymru, i roi gwybod i bobl am y prosiect a hefyd i helpu i greu rhwydwaith o Wrandawyr. Bydd Gwrandawyr yn helpu pobl i rannu'u straeon a byddant yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau fod modd i bawb sydd â stori i'w hadrodd allu'i rhannu. Gall Gwrandawyr fod yn staff neu wirfoddolwyr: bydd modd i wirfoddolwyr ymuno â rhwydwaith Credydau Amser Spice ac ennill Credydau Amser am y straeon a gasglwyd ganddynt.

Os oes gennych chi stori i'w rhannu, neu os ydych chi' gwybod am eraill sydd â stori i'w rhannu, cymerwch ran os gwelwch yn dda.

Bydd Mesur y Mynydd yn rhannu'r canfyddiadau â Llywodraeth Cymru, gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol, cyfranogwyr a, thrwy gyfrwng y wefan a

chyflwyniadau, â phobl yng Nghymru. Ym mis Medi, bydd y prosiect yn cynnal Rheithgor Dinasyddion yn Stadiwm Liberty, Abertawe, i graffu ar faterion allweddol sy'n codi o'r straeon. Bydd aelodau'r cyhoedd yn archwilio cwestiwn polisi, yn dod i ganlyniadau ac yn cyflwyno'u hargymhellion.

Gellir cael gwybodaeth bellach am bob agwedd o'r prosiect, gan gynnwys sut i fod yn Wrandawr, rhannu stori neu gymryd rhan yn y Rheithgor Dinasyddion, ar wefan Mesur y Mynydd www.mtm.wales / www.mym.cymru

Neu gallwch gysylltu â rheolwr y prosiect, Katie - kcooke@interlinkrct.org.uk / 07964 407 739

Comisiynydd Plant Cymru yn Cyflwyno Papur Safbwynt ar Addysg Hawliau Dynol

Yn ddiweddar mae Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru, wedi cyhoeddi papur yn amlinellu ei safbwynt ar addysg Hawliau Dynol yn y cwricwlwm newydd.

Mae'r Comisiynydd yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r system addysg, ac yn mynegi awydd i weld gwerthoedd ac egwyddorion hawliau dynol yn cael eu cynnwys fel rhan orfodol o'r cwricwlwm newydd.

Mae'r papur yn egluro barn y Comisiynydd y dylai hawliau dynol fod yn sylfaen ar gyfer y cwricwlwm newydd, gan ddiffinio addysg hawliau dynol, nodi manteision addysg hawliau dynol a mapio integreiddiad hawliau dynol ar draws addysg Cymru. I ddarllen y papur yn llawn, ewch i wefan y Comisiynydd.

Diwrnod Cenedlaethol Plant yn y Deyrnas Unedig: 13 Mai 2018

Dydd Sul 13 Mai 2018 yw Diwrnod Cenedlaethol Plant yn y Deyrnas Unedig. Mae'r diwrnod wedi'i neilltuo i ddathlu pwysigrwydd plentyndod iach a diogelu hawliau a rhyddid plant.

Ar draws y byd mae'r diwrnod yn cael ei ddathlu ar 20 Tachwedd, y diwrnod a enwebwyd gan y Cenhedloedd Unedig, ond yn y Deyrnas Unedig, cynhelir ef ar 13 Mai, ar ddechrau'r haf, fel bod plant yn cael cyfle i fod allan yn yr awyr agored.

Nod Diwrnod Cenedlaethol Plant yn y Deyrnas Unedig yw annog cynifer o bobl â phosibl i amlygu a dathlu hawliau a rhyddid plant, yn ogystal â dathlu gweithgareddau sefydliadau sy'n gweithio i ddiogelu a hybu iechyd a llesiant plant.

I gael rhagor o wybodaeth am ymwneud â'r Diwrnod neu'r gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio, ewch i wefan Diwrnod Cenedlaethol Plant yn y Deyrnas Unedig yma.

Cymru Ifanc
Young Wales

April 2018

Welcome to the Young Wales newsletter

Young Wales is the participation work that is being run by Children in Wales and our partner organisations, and is funded by the Welsh Government.

Young Wales will ensure that children and young people are heard on issues that are important to them, and in particular that these issues are heard by the Welsh Government.

Each month we will bring you the latest news, including updates on the work that is being done by forums and other groups across Wales.

If you have anything you'd like to contribute, please email info@childreninwales.org.uk.

Contents

1. Young Wales Celebration Event
2. Welsh Government support project to hear the views of children and young people on Brexit
3. Measuring the Mountain - Understanding Experiences of Social Care in Wales
4. Children's Commissioner for Wales Sets out Position Paper on Human Rights Education
5. National Children's Day UK: 13 May 2018

Young Wales Celebration Event

On 23 March, over 80 young people from across Wales met at the National

Museum of Wales to celebrate the work of Young Wales over the last three years.

The event celebrated the end of the third year of the Young Wales participation initiative, funded by the Welsh Government through the Children and Families Delivery Grant. The aim of Young Wales is to give children and young people a voice and ensure that they are heard by decision makers.
Attendees at the event were able to visit the Young Wales zone where we detailed a timeline of all our work and events since the beginning of our work.

Bethany Roberts MYP, from the Young Wales Project Board, read out a message at the event from the Minister for Children and Social Services, Huw Irranca-Davies AM. We also welcomed the Children's Commissioner for Wales and the Future Generations Commissioner to the event. Both Commissioners ran workshop sessions to discuss their work and priorities.

The Children's Commissioner for Wales also talked about her plan for the next three years, following the large consultation held in the first year of her post, called Beth Nesa/What next?

The event was much more than just an annual conference, with workshops and activities for everyone to enjoy included in the evening. Some of the fun activities including rapping, lyric writing, hoola hooping and a photobooth.

The evening included workshops with Time to Change Wales looking at mental health issues, MEIC Cymru, Youth Cymru, the National Assembly for Wales, Carmarthenshire Youth Council, Public Health Wales, Cardiff Young Carers Group, Cardiff Youth Council, and the Changing Minds project.

Thanks to everyone who attended the day - it was great to look back over all the successes of the last few years. We look forward to the next phase of Young Wales' work.

Welsh Government supports project to hear the views of children and young people on Brexit

Children (aged 0-19) represent a quarter of the population of Wales. The implications of Brexit will affect them longer than the adults who took the decision to leave the European Union.

It is only right that the views of children and young people are considered by government during these important negotiations. We are therefore very pleased that Welsh Government is providing some resources for children and young people to have their views heard on this issue.

Catriona Williams OBE, Chief Executive of Children in Wales said:

"Our 'Young Wales' programme aims to increase the participation of children and young people in influencing the development of Welsh Government policies. We already know from them that that they are really keen to have their views heard at this critical time in relation to negotiations over Brexit as it will be their futures which will be particularly affected.

"We, in Children in Wales, are therefore delighted that Welsh Government has listened to the young people and has granted funding for this important task which recognises the importance of implementing the United Nations Convention on the Rights of the Child, here in Wales."

Issues for concern include the erosion of Fundamental Rights, undermining social cohesion and loss of funding to deprived regions and to programmes for educational exchanges.

Measuring the Mountain - Understanding Experiences of Social Care in Wales

Measuring the Mountain is an all-Wales project evaluating the impact of the Social Services and Wellbeing (Wales) Act 2014. It is a collaboration between the public sector, third sector and, most importantly, the people who live here.

Funded by Welsh Government, the project will collect stories from people with recent experience of social care in order to build a picture of what social care feels like for the individuals involved.

The Measuring the Mountain team hope to work with organisations across Wales, both to let people know about the project and to help create a network of Listeners. Listeners will support people to share their stories and will play a vital role in ensuring that everyone who has a story is able to share it. Listeners can be staff or volunteers: volunteers will be able to join Spice's Time Credits network and earn Time Credits for the stories they collect.

If you have a story to share, or if you know others who do, please get involved.

Measuring the Mountain will share their findings with Welsh Government, social care professionals, participants and, through their website and presentations, with people in Wales. In September, the project will host a Citizens' Jury at the Liberty Stadium, Swansea, to look more closely at key issues that arise from the stories. Members of the public will examine a policy question, draw conclusions and present their recommendations.

Further information about all aspects of the project, including how to be a Listener, share a story or get involved in the Citizens' Jury can be found on their website www.mtm.wales / www.mym.cymru

Or you can contact Katie, the project manager - kcooke@interlinkrct.org.uk / 07964 407 739

Children's Commissioner for Wales Sets out Position Paper on Human Rights Education

Sally Holland, the Children's Commissioner for Wales, has set recently published a paper outlining her position on Human Rights education in the new curriculum.

The Commissioner welcomes the Welsh Government's commitment to reforming the education system, and expresses a desire to see human rights values and principles form a mandatory part of the new curriculum.

The paper explains the Commissioner's view that human rights should underpin the basis of the new curriculum, define human rights education, identify the benefits of human rights education and map the integration of human rights across Welsh education.

To read the paper in full, please visit the Commissioner's website.

National Children's Day UK: 13 May 2018

Sunday 13th May 2018 is National Children's Day in the UK.

The day is dedicated to celebrating the importance of a healthy childhood and protecting the rights and freedoms of children.

Around the world the day is celebrated on the 20th of November, the day nominated by the United Nations, but in the UK, the day is held on the 13th of May, the beginning of summer, so that children have the opportunity to get outside.

The aim of NCDUK is to encourage as many people as possible to highlight and celebrate the rights and freedoms of children, as well as celebrating the activities of organisations that work to protect and promote the health and well-being of children.

To find out about getting involved in NCDUK or the activities that are planned, please visit the NCDUK website here.